# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn

Dyddiad yr arolygiad: 09/03/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae ymdeimlad cryf o berthyn yn bodoli ymhlith disgyblion a staff Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn, sy'n cydweithio'n agos i greu cymuned ddysgu hapus a chynhwysol. Mae perthnasoedd cadarnhaol a pharchus rhwng staff a disgyblion yn gryfder amlwg. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i ddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac ymddygiad da iawn o oedran cynnar.

Mae'r pennaeth gweithredol, gyda chefnogaeth effeithiol yr uwch dîm arwain, yn darparu arweinyddiaeth ystyriol sy'n sefydlu cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygiad yr ysgol. Mae ei gweledigaeth greadigol a Chymreig wedi'i rhannu'n llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol ac yn treiddio'n gadarn i bob agwedd ar ei gwaith.

Mae'r ysgol yn hafan ddiogel a chefnogol, lle mae staff yn adnabod anghenion disgyblion, teuluoedd a'r gymuned yn drylwyr ac yn sicrhau bod gweithgareddau'n hygyrch i bawb. Mae partneriaethau cryf â rhieni a'r gymuned yn cyfoethogi profiadau dysgu ac yn cefnogi lles disgyblion yn hynod effeithiol.

Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod dda o fedrau o'u mannau cychwyn. Mae staff yn defnyddio dulliau addysgu effeithiol yn gyson ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu at eu dysgu a gwella eu gwaith yn fwriadus.

Mae'r cwricwlwm yn eang, cyfoethog a pherthnasol, ac mae athrawon yn darparu profiadau diddorol sy'n ennyn chwilfrydedd disgyblion ac yn adlewyrchu natur yr ardal leol a Chymru yn llwyddiannus. Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn llwyddiannus, gan feithrin balchder ymhlith disgyblion yn eu treftadaeth. Mae'r profiadau a gynllunnir ar gyfer datblygu medrau digidol yn rhinwedd nodedig o'r ddarpariaeth, gyda disgyblion yn defnyddio technoleg yn hyderus mewn cyd-destunau ystyrlon.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar a chefnogol i'r ysgol. Mae trefniadau hunanwerthuso cadarn yn sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth cadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Er bod arweinwyr yn gweithio'n barhaus i gefnogi presenoldeb, mae absenoldeb ychydig o ddisgyblion yn parhau i fod yn rhy uchel.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella presenoldeb disgyblion sy'n absennol o'r ysgol yn barhaus

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/05/2026